OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 50 (Cy. 10)

PRIFFYRDD, CYMRU

Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Offeryn Cadarnhau hwn yn cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011, a wnaed gan Gyngor Gwynedd ar 18 Hydref 2011. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer adeiladu pont ffordd dros aber Afon Dwyryd i'r de o Benrhyndeudraeth, Gwynedd.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 50 (Cy. 10)

PRIFFYRDD, CYMRU

Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 2013

Gwnaed	*16*	*Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*31*	*Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980[(1)].

Enw

1. Enw'r offeryn hwn yw Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 2013.

Cadarnhau'r Cynllun

2. Drwy hyn, mae Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Ffordd Pont Briwet) 2011 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cynllun") wedi ei gadarnhau heb ei addasu.

Y Cynllun

3. Mae'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd wedi ei nodi yn yr Atodlen i'r offeryn hwn ac mae copïau o'r Cynllun ynghyd â'r planiau sy'n mynd gydag ef wedi eu hadneuo yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH.

[(1)] 1980 p.66. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.